



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

**POLISI ABSENOLDEB MABWYSIADU**

<b>Arolwg</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid</b>		<b>Dyddiad yr Arolwg</b>
1.	2006			2007
2.	2007			2008
3.	2014	Newidiadau cosmetig		2015
4.	2015	Diweddariad am eglurder		2016
5.	2016	Newidiadau cosmetig		2017
6.	2018	Diweddariad i adlewyrchu polisi absenoldeb mamolaeth		2020
7.	2021	Adolygiad - diwygiad o eiriad nad yw'n effeithio ar gynnwys		2023
<b>Swyddog Polisi</b>		<b>Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb</b>	<b>Cymeradwywyd gan a Dyddiad</b>	<b>Asesiad o ran Effaith ar Gydraddoldeb, a dyddiad</b>
Jade Luke		Steffan Griffiths	HRTG 10/02/2003	

## Tabl Cynnwys

1	HAWL I ABSENOLDEB MABWYSIADU.....	3
2	Y BROSES HYSBYSU .....	3
3	TALIADAU .....	4
4	DECHRAU ABSENOLDEB MABWYSIADU .....	4
5	CADW MEWN CYSYLLTIAD YN YSTOD EICH ABSENOLDEB MABWYSIADU	4
6	DYCHWELYD I'R GWAITH AR ÔL ABSENOLDEB MABWYSIADU.....	5
7	AELODAU STAFF NAD YDYNT YN DYCHWELYD I'R GWAITH .....	6
8	STAFF AR GONTRACTAU CYFNOD PENODOL.....	6
9	HAWLIAU AC YMRWYMIADAU.....	7
9.1	HAWLIAU PENSIWN .....	7
9.2	GWASANAETH DI-DOR .....	7
9.3	GWYLIAU BLYNYDDOL.....	7
10	AELODAU STAFF A GYLLIDIR GAN INCWM ALLANOL.....	8
11	ADOLYGU POLISI .....	8

## **1 HAWL I ABSENOLDEB MABWYSIADU**

I fod yn gymwys i gael absenoldeb mabwysiadu, mae'n rhaid i chi fod newydd gael eich hysbysu gan asiantaeth fabwysiadu a gymeradwyir fod plentyn ar gael i chi i'w fabwysiadu ac mae'n rhaid eich bod yn cwrdd â'r gofynion a nodwyd yn y cynlluniau yn y llyfryn hwn. Nid yw absenoldeb mabwysiadu ar gael mewn amgylchiadau lle nad yw'r plentyn newydd gael ei leoli, er enghraifft lle bo llys-riant yn mabwysiadu plentyn partner.

Mae absenoldeb mabwysiadu â thâl yn caniatáu un aelod o gwpl sy'n mabwysiadu, yr un gyda'r prif gyfrifoldeb gofal am y plentyn, i gymryd amser â thâl o'r gwaith pan fydd eu plentyn newydd yn dechrau byw gyda nhw. Efallai y bydd absenoldeb mabwysiadu tadolaeth a thâl ar gael i'r aelod arall o'r cwpwl, neu bartner y sawl sy'n mabwysiadu. Lle bo cwpwl yn mabwysiadu ar y cyd gallant ddewis pa un ohonynt fydd yn cymryd absenoldeb mabwysiadu a thâl, a gall y llall (waeth beth fo'i rhyw) gymryd absenoldeb cefnogi mabwysiadu tadolaeth a thâl.

## **2 Y BROSES HYSBYSU**

Bydd gofyn i chi roi gwybod i Adnoddau Dynol am eich bwriad i gymryd absenoldeb mabwysiadu o fewn 7 diwrnod ar ôl cael gwybod gan eich asiantaeth fabwysiadu eich bod wedi cael eich paru gyda phlentyn i'w fabwysiadu, ac eithrio pan na fydd hyn yn rhesymol ymarferol. Bydd angen i chi roi gwybod i Adnoddau Dynol y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei roi gyda chi, a phryd rydych yn dymuno i'ch absenoldeb mabwysiadu ddechrau. Byddwch yn gallu newid y dyddiad hwn cyn belled ag y byddwch yn rhoi 28 diwrnod o rybudd o'r dyddiad newydd y byddwch am ddechrau'ch absenoldeb.

Bydd Adnoddau Dynol yn ymateb o fewn 28 diwrnod o ddyddiad derbyn eich rhybudd i gymryd absenoldeb mabwysiadu. Bydd y llythyr hwn yn nodi'r dyddiad y disgwylir i chi ddychwelyd i'r gwaith, cyn belled â'ch bod yn cymryd y cyfan o'r hyn y gellwch ei hawlio.

Rhaid i chi gynnwys tystysgrif paru gan eich asiantaeth fabwysiadu gyda'ch cais am absenoldeb mabwysiadu (tystiolaeth ddogfennol o'r mabwysiadu). Mae ei hangen fel dystiolaeth o'ch hawl i gael Tâl Mabwysiadu Statudol. Dylai'r dystysgrif paru gynnwys enw a chyfeiriad yr asiantaeth, eich enw a'ch cyfeiriad, ynghyd â'r dyddiad pryd y cawsoch wybod eich bod wedi cael eich paru gyda'r plentyn a'r dyddiad pryd y mae'r asiantaeth yn disgwyl gosod y plentyn gyda chi.

Os byddwch yn dechrau eich absenoldeb mabwysiadu heb gael hysbysiad gan Adnoddau Dynol, gallech gael eich trin fel pe baech ar absenoldeb heb awdurdod ac ymdrinnir â'r mater yn unol â threfniadau priodol y brifysgol.

### 3 TALIADAU

Cynllun	Hawl/Tâl
Cynllun Absenoldeb Mabwysiadu y Brifysgol	• 8 wythnos o dâl llawn (ar eich cyfradd wythnosol arferol).
	• + 18 wythnos ar hanner cyflog (hanner eich cyfradd wythnosol arferol) + Tâl Mabwysiadu Statudol, neu 90% o'ch cyfradd wythnosol arferol os yw honno'n is.
	• + 13 wythnos ar y gyfradd statudol, neu 90% os yw'n llai.
	• + 13 wythnos o absenoldeb di-dâl.
Lwfans Mabwysiadu	• Os nad oes gennych hawl i gael Tâl Mabwysiadu Statudol, hynny yw, os yw eich cyflog cyfartalog yn is na'r 'terfyn enillion isaf' at ddibenion yswiriant gwladol, bydd Adnoddau Dynol yn rhoi ffurflen SMP1 i chi a fydd yn nodi pam na all y Brifysgol dalu Tâl Mabwysiadu Statudol i chi. Mae angen cyflwyno'r ffurflen hon i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol er mwyn iddynt allu brosesu eich taliad Lwfans Mabwysiadu.

### 4 DECHRAU ABSENOLDEB MABWYSIADU

Gallwch ddewis dechrau eich absenoldeb o'r dyddiad y lleolir y plentyn gyda chi, neu o ddyddiad penodol, a all fod hyd at 14 diwrnod cyn y dyddiad lleoli disgwylledig. Gall eich absenoldeb ddechrau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Os bydd lleoliad y plentyn yn dod i ben yn ystod y cyfnod absenoldeb mabwysiadu, byddwch yn gallu parhau gyda'ch absenoldeb am hyd at wyth wythnos ar ôl y dyddiad hwn. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen i chi roi gwybod i Adnoddau Dynol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad y daeth y lleoliad i ben.

### 5 CADW MEWN CYSYLLTIAD YN YSTOD EICH ABSENOLDEB MABWYSIADU

Yn ystod eich absenoldeb mabwysiadu dylech chi a'ch rheolwr llinell gadw mewn cysylltiad rhesymol â'ch gilydd. Dylai amllder y cyfathrebu a'r dull cyfathrebu gael ei gytuno rhyngoch cyn dechrau'r cyfnod absenoldeb. Os ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth gyfredol am rai materion neu ddatblygiadau tra byddwch ar absenoldeb

mabwysiadu, unwaith eto dylid trafod hyn a'i gytuno cyn i'ch cyfnod absenoldeb ddechrau.

*Diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad* - Ar ôl cytuno â'ch rheolwr llinell, gallwch weithio hyd at uchafswm o 10 diwrnod yn ystod eich cyfnod absenoldeb mabwysiadu. Gelwir y rhain yn ddiwrnodau 'cadw mewn cysylltiad'. Gallwch wneud y diwrnodau hynny ar unrhyw adeg yn ystod eich cyfnod mabwysiadu. Dylai diwrnodau cadw mewn cysylltiad gael eu cytuno rhwng y ddwy ochr - nid oes rhaid i chi wneud diwrnodau felly, ac nid oes rhaid i'r brifysgol gytuno iddynt.

Lle cymerir diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad telir cyfraddau cyflog dyddiol arferol. Nid yw hyn yn golygu y gallwch gymryd diwrnod i ffwrdd yn eu lle. Yn ystod y cyfnod tâl llawn ni thelir taliad ychwanegol ac eithrio Tâl Mabwysiadu Statudol a fydd yn dâl ychwanegol ar ben eich cyfradd ddyddiol arferol. Os byddwch yn cymryd un o'r diwrnodau hynny yn ystod eich cyfnod o hanner tâl, Tâl Mabwysiadu Statudol neu Ddim Tâl, fe gynyddir eich taliad i'ch cyfradd ddyddiol arferol a lle bo'n gymwys gyda Thâl Mabwysiadu Statudol. Os byddwch yn bresennol am ran o ddiwrnod bydd hynny'n cyfrif fel un Diwrnod Cadw mewn Cysylltiad.

Os byddwch yn dymuno gwneud Diwrnod Cadw mewn Cysylltiad, rhaid i chi gytuno ar y dyddiau/dyddiadau a'r math o waith yn ysgrifenedig gyda'ch Pennaeth Adran. Ar ôl trafod yn briodol gyda Phennaeth yr Adran, bydd yn ymateb yn briodol i'ch cais. Bydd eich Pennaeth Adran yn cadarnhau'r manylion gydag Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod manylion yn cael eu prosesu'n brydlon.

Dylai'r math o waith sydd i'w wneud gael ei gytuno rhyngoch a'ch rheolwr llinell. Gall diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad gynnwys cyrsiau hyfforddi, cyfarfodydd staff, diwrnodau i ffwrdd, adolygiadau perfformiad a datblygiad etc. ac ni ddylid eu cyfyngu i'ch dyletswyddau arferol. Cyfrifoldeb eich rheolwr llinell yw monitro diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad, a'u cofnodi gydag Adnoddau Dynol o fewn mis ar ôl i chi eu gwneud<sup>8</sup>

## **6 DYCHWELYD I'R GWAITH AR ÔL ABSENOLDEB MABWYSIADU**

*Newid amser dychwelyd (angen rhoi rhybudd) -*

Os ydych yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd eich cyfnod absenoldeb mabwysiadu llawn (h.y. 52 wythnos) rhaid i chi roi 8 wythnos o rybudd ysgrifenedig o'r dyddiad pryd yr ydych yn bwriadu dychwelyd i'ch rheolwr llinell (gyda chopi i Adnoddau Dynol). Os nad ydych yn rhoi'r rhybudd gofynnol, gall eich rheolwr llinell ohirio eich dychweliad hyd nes y rhoddyd yr 8 wythnos lawn o rybudd.

*Yr hawl i ddychwelyd i'r un swydd /swydd debyg -*

Fel rheol byddwch yn dychwelyd i'r swydd yr oeddech yn gyflogedig ynddi cyn eich absenoldeb mabwysiadu, ar yr amodau a'r telerau a fuasai mewn grym pe na buasech yn absennol. Pan fyddwch yn dychwelyd o'ch cyfnod absenoldeb mabwysiadu, mae gennych yr hawl i ddychwelyd naill ai i'r un swydd, neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol (er enghraifft oherwydd ailstrwythuro), i swydd gyfatebol a fyddai'n cael ei hystyried yn waith amgen addas, ar delerau ac amodau heb fod yn llai ffafriol na'r rhai a fuasai mewn grym pe na buasech yn absennol.

*Yr hawl i ofyn am drefniant gweithio hyblyg -*

Ar ôl dychwelyd o'ch cyfnod absenoldeb mabwysiadu, mae gennych hawl i ofyn am newid yn eich oriau/patrwm gweithio. Er nad oes gennych hawl awtomatig i gael eich cais wedi ei gymeradwyo, rhoddir ystyriaeth i bob cais am waith rhan amser neu drefniadau gweithio hyblyg eraill yn unol â gofynion ac anghenion gweithredol. Os hoffech i'r opsiwn hwn gael ei ystyried, dylech lenwi'r ffurflen Cais i Weithio'n hyblyg gan amlinellu eich cynigion cyn gynted ag y bo modd cyn eich dyddiad dychwelyd. Amlinellir y drefn i ddelio â cheisiadau felly ym Mholisi Gweithio Hyblyg y brifysgol.

## **7 AELODAU STAFF NAD YDYNT YN DYCHWELYD I'R GWAITH**

Os ydych yn penderfynu ymddiswyddo, bydd angen i chi roi'r rhybudd gofynnol yn unol â'ch contract cyflogaeth. Os ydych wedi derbyn Tâl Mabwysiadu y brifysgol ac nad ydych yn dychwelyd i'r gwaith am gyfnod o 3 mis o leiaf, byddwn fel rheol yn hawlio'n ôl yr elfen anstatudol o dâl mabwysiadu'r brifysgol.

## **8 STAFF AR GONTRACTAU CYFNOD PENODOL**

Dylech ymgynghori â'ch rheolwr llinell mor fuan â phosib os yw eich contract cyflogaeth i fod i ddod i ben yn ystod eich cyfnod absenoldeb mabwysiadu.

Os ydych ar contract cyfnod penodol sy'n dod i ben yn ystod/ar ddiwedd cyfnod eich absenoldeb mabwysiadu ac ni fu'n bosibl dynodi cyfle i'ch adleoli, ni fydd disgwyl i chi ad-dalu'r elfen anstatudol o dâl mabwysiadu'r brifysgol. Fodd bynnag, os cynigir estyniad i'ch contract presennol neu swydd adleoli yn y brifysgol, ond rydych yn dewis peidio â'i derbyn, rydym yn cadw'r hawl i adennill yr elfen anstatudol o dâl mabwysiadu'r brifysgol os byddwch yn gwrthod neu'n peidio â bwrw ymlaen â'r dewisiadau hyn.

Lle nad yw'n bosib estyn eich contract, ac os ydych yn gymwys, bydd eich tâl mabwysiadu yn parhau am y 39 wythnos gyfan, ond bydd yr holl fuddion eraill a gysylltir â'ch cyflogaeth yn dod i ben ar ddiwedd dyddiad y contract.

## **9 HAWLIAU AC YMRWYMIADAU**

### **9.1 HAWLIAU PENSIWN**

Rheolir hawliau a chyfraniadau pensiwn yn unol â darpariaethau'r cynllun pensiwn perthnasol, ar yr amod nad yw'r darpariaethau hyn yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion statudol a all fod mewn grym ar y pryd.

Fel rheol cedwir budd-daliadau pensiwn yn ystod y cyfnod absenoldeb â thâl. Mae gennych y dewis o gytuno i dalu'r cyfraniad dros y cyfnod absenoldeb heb dâl ar ôl i chi ddychwelyd i'r gwaith, ac ar yr amod bod hyn yn digwydd, bydd y brifysgol hefyd yn talu cyfraniadau cyflogwr am y cyfnod absenoldeb heb dâl.

Gellir cael gwybodaeth bellach am ddarpariaeth benodol o dan wahanol gynlluniau pensiwn gan y Swyddog Pensiynau.

### **9.2 GWASANAETH DI-DOR**

Lle rydych yn ymarfer eich hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o absenoldeb mabwysiadu, ystyrir y cyfnod absenoldeb yn wasanaeth di-dor gyda'r brifysgol at ddibenion hawliau diswyddo a hawliau tebyg eraill. Hefyd bydd gennych yr hawl i symud ymlaen trwy'r cynyddrannau blynyddol arferol ar raddfa cyflog y brifysgol yn unol ag amodau a thelerau eich cyflogaeth.

### **9.3 GWYLIAU BLYNYDDOL**

Bydd eich gwyliau blynyddol yn cronni yn ystod eich absenoldeb mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wyliau banc neu ddiwrnodau Prifysgol a all ddisgyn yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw'n bosib cymryd gwyliau blynyddol tra byddwch ar absenoldeb mabwysiadu, ond, trwy gytundeb â'ch rheolwr llinell, gallwch eu cymryd cyn neu ar ddiwedd eich cyfnod mabwysiadu.

Ar ol i chi ddychwelyd o'ch cyfnod mabwysiadu gallwch drosglwyddo unrhyw wyliau blynyddol a gronnwyd/sydd heb eu cymryd i'r flwyddyn wyliau ganlynol. Rhaid cymryd gwyliau a drosglwyddir i'r flwyddyn wyliau nesaf o fewn y flwyddyn honno.

## **10 AELODAU STAFF A GYLLIDIR GAN INCWM ALLANOL**

Os yw eich contract wedi ei gyllido gan incwm allanol dylech drafod y mater gyda'ch rheolwr llinell ac/neu ddeiliad y grant mor fuan â phosib. Mae gan rai cyrff cyllido bolisi o estyn grantiau dros gyfnodau mabwysiadu. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawl i absenoldeb a thâl mabwysiadu.

## **11 ADOLYGU POLISI**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o dro i dro i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn addas at anghenion y sefydliad ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.